

Her yr Hinsawdd yng Nghonwy

Gorffennaf 2024



Erbyn hyn mae gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy 15 o gerbydau trydan yn ein fflyd, mae hyn yn cynnwys:

- 5 o geir y Cyngor
- 3 o faniau bach
- 2 o ysgubwyr ffordd
- 5 o gerbydau casglu deunyddiau ailgylchu

Mae'r cerbydau hyn wedi disodli'r hen gerbydau diesel a phetrol a byddant yn helpu'r Cyngor i leihau'r allyriannau o'n fflyd.

Rydym wedi ysgrifennu canllawiau teithio i staff i'w helpu nhw i wneud dewisiadau teithio carbon gyfeillgar fel cerdded a beicio pan fyddant yn cymudo neu'n teithio at ddibenion busnes.



Rydym wedi creu modiwl e-ddysgu Allyriadau Carbon Sero Net ar gyfer staff Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy i wella eu dealltwriaeth o newid hinsawdd a lleihau allyriadau carbon.




Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy wedi cael arian grant gan Lywodraeth Cymru y byddwn yn ei ddefnyddio i:

- Brynu cerbydau trydan
- Gosod paneli solar mewn rhai ysgolion
- Gosod system wresogi newydd mewn ysgol wledig
- Gosod pwyntiau gwefru cerbydau trydan mewn rhai meysydd parcio cyhoeddus

Rydym wedi gwneud planhigfa goed yn ein planhigfa gyfredol i dyfu coed a gynaeafwyd yn lleol. Y mathau hyn o goed yr ydym wedi dewis eu tyfu yw'r rhai sydd yn amsugno carbon orau. Unwaith y byddant yn ddigon aeddfed byddant yn cael eu plannu yn y Sir i amsugno rhywfaint o'r carbon sy'n cael ei greu o'n gweithgareddau.

Ers i ni gyhoeddi argyfwng hinsawdd yn 2019, mae **2,073 o goed** ychwanegol wedi eu plannu yn Sir Conwy.



This document is also available in English.